# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 1 Medi 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

7 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o ysgrifenyddion y dyddiadur ac ysgrifenyddion cynorthwyol y dyddiadur a gyflogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddelio ag ymrwymiadau dyddiadur Gweinidogion, a faint a ddyrennir i bob Gweinidog. (WAQ56439)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae gan bob Gweinidog Ysgrifennydd y Dyddiadur. Nid oes swyddi Ysgrifennydd Cynorthwyol y Dyddiadur yn bodoli. Lle y bo angen, darperir cymorth ychwanegol ar faterion sy'n ymwneud â'r dyddiadur fel rhan o'r trefniadau cymorth gweinyddol cyffredinol mewn swyddfeydd preifat.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa amcangyfrifon a wnaethpwyd ynghylch y gostyngiad i DEL Cyfalaf Cymru mewn termau real yn 2011-12, 2012-13, 2013-14 a 2014-15 fel a) swm (mewn £), a b) canran. (WAQ56422)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU, a gaiff ei gwblhau ym mis Hydref, yn pennu Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Cymru y tu hwnt i 2010-11. Tan y cyhoeddiad hwnnw, ni wyddom beth fydd ein setliad cyllideb gwirioneddol y tu hwnt i'r flwyddyn gyfredol. Heb ffigurau cadarn, rydym wedi bod yn cynllunio ar sail tybiaethau cynllunio. O ran cyfalaf, rydym wedi bod yn gweithio ar sail y dybiaeth y byddwn yn wynebu lleihad o 10% o flwyddyn i flwyddyn. Ein harfer arferol yw paratoi cynlluniau gwariant am gyfnod o dair blynedd a fydd yn mynd â ni hyd at 2013-14, ac nid ydym yn cynllunio ein gwariant y tu hwnt i'r flwyddyn honno ar hyn o bryd. Darperir data isod felly ar gyfer y cyfnod rhwng 2011-12 a 2013-14.

**Tybiaethau Cynllunio ar gyfer Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Cymru**

| | **Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhermau Arian Parod (£bn)** | **Newid Blynyddol yn Nhermau Arian Parod (£bn)** | | **Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl Prisiau 2010-11 (£bn)** | **Newid Blynyddol yn ôl Prisiau 2010-11** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 1.67 | | | 1.67 | |
| 2011-12 | 1.51 | -10% | | 1.48 | -11.8% |
| 2012-13 | 1.36 | -10% | | 1.30 | -12% |
| 2013-14 | 1.22 | -10% | | 1.14 | -12.2% |

*Ffynhonnell: Datchwyddiant CMC Trysorlys Ei Mawrhydi adeg Cyllideb Mehefin 2010*

*Cymerwyd ffigurau cyllideb 2010-11 o Gyllideb Atodol Mehefin 2010*
*Talgrynnwyd y ffigurau*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Am sawl blwyddyn y disgwylir i gyfanswm cyllideb DEL Cymru grebachu. (WAQ56423)
**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pryd y disgwylir y bydd cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dychwelyd i'w lefel yn 2009-10 mewn termau real. (WAQ56424)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nes y cyhoeddir canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Hydref, nid oes gennym fanylion am gyllideb Cymru ar ôl 2010-11. Roedd Cyllideb mis Mehefin yn cynnwys rhagamcanion Llywodraeth y DU o gyfanswm gwariant y Llywodraeth tan 2014-15. Fodd bynnag, rydym ond wedi gwneud tybiaethau am lefel Terfyn Gwariant Adrannol Cymru tan 2013-14, fel y nodwyd yn WAQs 56382 i 56386 a 56422. Byddai unrhyw amcangyfrifon tymor hwy ar hyn o bryd o ran lefel Terfyn Gwariant Adrannol Cymru yn ansicr ac yn anghywir iawn ar hyn o bryd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu diogelu gwariant ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn termau real yn 2011-12, 2012-13, 2013-14, a 2014-15, o'i gymharu â 2010-11. (WAQ56443)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Rydym wedi nodi ein hymrwymiad parhaus i wasanaethau rheng-flaen yn glir, o ran ymdrin â'r lleihad yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU eleni ac o ran paratoi ar gyfer cyfres o setliadau cyllideb anodd yn y dyfodol. Mae ein hymrwymiad i wariant ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi llunio cynlluniau gwariant olynol Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n parhau i fod o'r pwys mwyaf wrth i ni baratoi ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwariant hwn bellach ddwywaith yr hyn ydoedd pan sefydlwyd y Cynulliad ac mae hyn wedi helpu i lywio'r gwelliannau mawr a welsom yn y gwasanaeth iechyd ers 1999.
Nes y cyhoeddir canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, ni fyddwn yn gwybod setliad ein cyllideb ar ôl y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio ar sail tybiaethau am ein setliad. Mae ein proses cynllunio cyllideb yn cynnwys ystyried ein blaenoriaethau gwariant a'n hymrwymiad i wasanaethau rheng flaen, yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n fwy effeithlon. Nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw ymrwymiadau nes bod y Cabinet wedi ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth ac wedi myfyrio ar hynny yng ngoleuni ein setliad o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gwirioneddol, a fydd yn hysbys ar 20 Hydref.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion uwchradd. (WAQ56426)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chanllawiau gwrth-fwlio 'Parchu Eraill' i bob ysgol ac awdurdod lleol yn 2003. Mae'r canllawiau yn nodi'r strategaethau gwahanol y gall ysgolion eu rhoi ar waith er mwyn atal bwlio ac ymateb iddo. Ar hyn o bryd mae swyddogion wrthi'n datblygu canllawiau newydd, mwy manwl ar fathau penodol o fwlio. Disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Yn 2008, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad becyn cymorth gwrth-fwlio i helpu ysgolion i ddatblygu eu polisïau a'u strategaethau gwrth-fwlio, a'u hintegreiddio'n llawn yn ethos yr ysgol.

Yn 2009, comisiynwyd arolwg cenedlaethol gennym o fwlio mewn ysgolion yng Nghymru. Ymatebodd dros 7,400 o ddisgyblion i'r arolwg, ac mae'r canlyniadau wedi darparu llinell sylfaen y byddwn yn mesur cynnydd yn ei herbyn yn y dyfodol, yn ogystal â ffynhonnell wybodaeth i lywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. Eleni bydd swyddogion yn dechrau cyfres o gyfarfodydd ag awdurdodau lleol i drafod canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hwn a beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hwy ar lefel leol.

Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Wythnos Gwrth-Fwlio 2010, rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau eraill o Rwydwaith Gwrth-Fwlio Cymru i drefnu cynhadledd genedlaethol ym mis Tachwedd er mwyn helpu i roi'r sgiliau a'r gwybodaeth i athrawon a gweithwyr proffesiynol i ymdrin â nifer o wahanol fathau o fwlio.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar adeiladau ysgolion, a gyhoeddwyd fis diwethaf. (WAQ56427)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Comisiynwyd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol 'Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion' nifer o flynyddoedd yn ôl (fe'i comisiynwyd yn wreiddiol yn 2006), a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2010. Ers hynny mae cyfeiriad polisi a system weithredu a chyflawni buddsoddiad cyfalaf ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi newid ac wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y cyfnod cyfamserol.
Mae'r adroddiad yn amlinellu pum argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ac un ar gyfer awdurdodau lleol. Mae swyddogion wrthi'n adolygu'r rhain. Fodd bynnag, mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cadarnhau camau gweithredu sydd eisoes yn mynd rhagddynt ac a ddisodlir i raddau helaeth gan waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd o dan Raglen Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Agenda Drawsnewid.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi asesiad ar yr ymgyrch Rho Amser i Ddarllen. (WAQ56478)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The 'Take Five. Read for Ten' parent/carer engagement campaign was launched by the Minister at the National Eisteddfod in Ebbw Vale. It forms a key strand of the Department for Children, Education and Lifelong Learning's strategy to raise adults' awareness of the importance of spending time with children and young people to listen to them reading.
Research undertaken, most recently by The National Literacy Trust in England illustrates the clear link between parental support for literacy and a child's reading ability. Well-developed reading skills are essential to open the door to learning; by encouraging children to read for pleasure, families can help them to do well at school and to enhance their life opportunities.
We are determined to improve literacy skills throughout Wales. The 'Take Five. Read for Ten' parental engagement campaign seeks to bring about behavioural change which, if successful, will make a major contribution towards achieving a step change in the literacy levels of children and young people in Wales. The campaign will be fully evaluated so that lessons learnt from this campaign will inform future developments.

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddiogelu cyllid ar gyfer cyfleusterau ieuenctid a meysydd chwarae ysgolion yng Nghymru. (WAQ56429)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Welsh Assembly Government is committed to implementing the National Youth Service Strategy and the One Wales Youth Service Fund to ensure a comprehensive network of fit-for-purpose services and facilities for young people. The Children & Families (Wales) Measure will place a duty on Local Authorities to secure sufficient play opportunities for children in their areas.

During 2010 and 2011 the Welsh Assembly Government will be consulting with all stakeholders on the development of the Standards and Guidance to Local Authorities to enable them to fulfil this duty. These will contain requirements for the provision and maintenance of open spaces and play areas, and consultation with children, young people and the wider community relating to this provision. Local authorities are responsible for the provision and maintenance of open space and play opportunities. Planning Policy Wales contains updated policies providing for the protection of recreational open space. Funding for school youth facilities and the protection of playgrounds in Wales will however need to be contained within overall budgets going forward.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sydd wedi'u cymryd i sefydlu'r targedau o ran y nifer a dderbynnir ar gyfer hyfforddiant athrawon yn 2011/12. (WAQ56431)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae targedau derbyn ymgeiswyr ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru yn seiliedig ar ragolygon galw am athrawon newydd gymhwyso. Defnyddir Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i lywio'r broses o gynllunio nifer cyffredinol athrawon. Mae'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn modelu stoc yr athrawon sydd eu hangen (drwy gymhwyso cymhareb athro a disgybl â rhagamcanion niferoedd ar gyfer disgyblion) a llif athrawon (nifer yr athrawon sy'n gweithio a rhagamcanion ar gyfer symudiadau i mewn ac allan o'r boblogaeth hon). Yna mae'n ystyried faint o newydd-ddyfodiaid sydd eu hangen ym maes addysgu er mwyn cael digon o athrawon a faint o ymgeiswyr sydd angen eu derbyn ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i gynhyrchu hyn.
Mae'r broses fodelu hon yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Disgwyliwn allu rhoi gwybod i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am dargedau derbyn ymgeiswyr i hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer 2011/12 yn ystod yr hydref.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arian sy'n cael ei wario ar hyfforddi athrawon newydd o'i gymharu â'r arian sy'n cael ei wario ar DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) i'r rheini sydd eisoes yn athrawon. (WAQ56432)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae angen athrawon newydd yn lle'r rheini sy'n ymddeol neu sy'n gadael y gwasanaeth fel arall yn rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cefnogi'r gwaith o recriwtio a hyfforddi myfyrwyr ymrwymedig o safon uchel i hyfforddi fel athrawon yng Nghymru er mwyn darparu aelodau o staff i ysgolion sydd â'r safonau proffesiynol rydym am weld yn addysgu ein plant.
Argymhellodd ein hadolygiad o ddatblygiad proffesiynol staff cymorth ysgol, athrawon a phenaethiaid y dylid lleihau'r ffocws ar weithgareddau unigol a chyrsiau hyfforddi untro. Yn hytrach, caiff dull gweithredu mwy effeithlon ei ddatblygu drwy gymunedau dysgu proffesiynol, a chanolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau craidd llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Y nod yw canolbwyntio ar ansawdd y profiad a'r effaith ar wella'r safonau addysgu a gwella canlyniadau dysgwyr yn hytrach na faint o waith a wneir sy'n gysylltiedig â datblygu.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost effeithiolrwydd y bwrsarïau a ddyfernir i fyfyrwyr TAR sy'n cael eu recriwtio bob blwyddyn. (WAQ56437)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cymhellion hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn meysydd penodol er mwyn helpu i ddenu'r myfyrwyr gorau, mwyaf ymroddedig i hyfforddi yng Nghymru, yn enwedig ar gyrsiau lle ceir trafferth recriwtio o bosibl. Nod y cymhellion yw galluogi myfyrwyr sy'n penderfynu ble i hyfforddi fel athrawon i wneud y penderfyniad hwnnw gan wybod os byddant yn astudio yng Nghymru y cânt yr un cymhellion â'r rheini yn Lloegr, ac i alluogi darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru i gystadlu'n effeithiol am yr ymgeiswyr mwyaf dawnus.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r bwlch cynyddol mewn perfformiad rhwng myfyrwyr yng Nghymru a myfyrwyr yn Lloegr ar y lefelau TGAU a Safon Uwch. (WAQ56442)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae canlyniadau dros dro myfyrwyr Cymru safon TGAU ac Uwch yn gyffredinol yn debyg i'r rheini ar gyfer y DU gyfan.

Mae cyfradd lwyddo gyffredinol TGAU yng Nghymru yr un peth â'r un ar gyfer y DU gyfan - llwyddodd 98.7% o'r ymgeiswyr i basio (gradd A* i G). Dengys y canlyniadau gynnydd cadarnhaol o ran graddau cyffredinol a graddau uwch (A* i C) o gymharu â 2009.  .

| **Canlyniadau TGAU Cymru** | **Cymru** | | **Y DU** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **Newid pwynt canrannol ers 2009** | **2010** | **Newid pwynt canrannol ers 2009** |
| Cyfanswm yr Ymgeiswyr | 295934 | **-1.7** | 5374490 | **-1.7** |
| % Cyfradd lwyddo gyffredinol - graddau A* i G | 98.7 | **+0.2** | 98.7 | **+0.1** |
| % Graddau A* i C | 66.4 | **+0.9** | 69.1 | **+2.0** |

O ran Safon Uwch, er y gostyngiad bach o ran perfformiad o gymharu â 2009, erys y gyfradd lwyddo gyffredinol (gradd A* i E) yn uchel iawn sef 97.1% o ymgeiswyr.

| **Canlyniadau TAG 2010** | **JCQ - Canolfannau Cymru** | | **JCQ y DU** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **Newid pwynt canrannol ers 2009** | **2010** | **Newid pwynt canrannol ers 2009** |
| **Nifer yr ymgeiswyr** | 37315 | **-2.9** | 853933 | **+0.8** |
| **Cyfradd Lwyddo Gyffredinol (Gradd A* i E)** | 97.1 | **-0.5** | 97.6 | **+0.1** |

Mae gwahaniaeth bach ym mherfformiad myfyrwyr yng Nghymru ac yn Lloegr o ran rhai graddau. Mae'n bwysig cofio bod ein polisïau'n gynyddol wahanol yng Nghymru o'u cymharu â gweddill y DU. Er enghraifft mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn rhoi sgiliau ychwanegol gwerthfawr i fyfyrwyr yng Nghymru ar gyfer addysg barhaus neu gyflogaeth.

Mae defnyddio data o'r fath i gefnogi hunanwerthuso cadarn yn o elfennau craidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Er mwyn cefnogi hyn rydym wedi cyflwyno Set Ddata Graidd Cymru Gyfan sy'n caniatáu i ysgolion ystyried eu canlyniadau'n well yn eu cyd-destun ac o gymharu ag eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'n cynyddu pŵer gwario'r cyllidebau sydd ganddo yng nghyswllt ffyrdd. (WAQ56425)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am draffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd lleol.
Mae gwariant ar ddiogelwch a chynnal a chadw traffyrdd a chefnffyrdd yn cynnwys costau rheoli a chostau'r gwaith.
Ar hyn o bryd rwy'n ystyried canlyniadau adolygiad o'r model rheoli i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf cost effeithiol.

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint sydd wedi cael ei wario ar ddatblygu'r Parc Awyrofod yn Sain Tathan. (WAQ56430)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Mai 2011***

Rhwng mis Awst 2003 a 30 Mehefin eleni, mae £5.5 miliwn wedi'i wario ar ddatblygu Cynllun Datblygu Sain Tathan.

Mae'r costau'n cynnwys ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol o ran uwchgynllunio a chostau cysylltiedig, a hyrwyddo'r cynllun. Mae'r gwariant wedi'i briodoli i'r cynigion awyrofod ond mae canran o'r costau, er enghraifft arolygon tir ac ecolegol a rhai costau prynu gorfodol sy'n cwmpasu Cynllun Datblygu ehangach Sain Tathan. Nid yw'n bosibl dadgyfuno'r wybodaeth hon.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa arian sydd ar gael iddo er mwyn gallu diwallu costau annisgwyl yn ystod y flwyddyn. (WAQ56433)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Mai 2011***

Caiff holl gyllidebau Adran yr Economi a Thrafnidiaeth eu dyrannu i raglenni bob blwyddyn ariannol i helpu i gyflawni blaenoriaethau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae prosesau monitro a chraffu ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn yn helpu i benderfynu pa gronfeydd y gellir eu hailddyrannu i dalu unrhyw gostau annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer disodli'r Gronfa Fuddsoddi Sengl. (WAQ56436)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Single Investment Fund (SIF) closed to new applications on the launch of *Economic Renewal: a new direction* on 5 July. Applicants in advanced discussions had until 31 August to submit for assessment under the old SIF rules.

The main provisions of the new scheme, called 'DE&T Business Finance', are being communicated to front-line staff today to ensure continuity of service and to allow new applications to be considered on a case-by-case basis. A further announcement on the full operational details of the new scheme will be made in the coming weeks.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A yw'r Gweinidog wedi asesu'r potensial i wneud arbedion yn ei adran. (WAQ56438)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Gwnaethoch ofyn a oeddwn wedi asesu'r potensial i wneud arbedion yn fy adran.

Caiff y materion hyn eu hystyried yng nghylch y gyllideb.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, faint o weithwyr nad ydynt yn weithwyr meddygol sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn, a beth yw eu swyddi. (WAQ56420)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Ni chedwir y wybodaeth hon gan Lywodraeth y Cynulliad .

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pryd gall Rheilffordd Llangollen ddisgwyl penderfyniad ynghylch Gorchymyn Trafnidiaeth a Gwaith Rheilffordd Llangollen. (WAQ56421)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Cafodd Ymddiriedolaeth y Rheilffordd y llythyr penderfyniad yn cadarnhau'r Gorchymyn ar 19 Awst 2010. Mae'r Gorchymyn wedi'i ddyfarnu bellach a daw'n weithredol o 27 Awst 2010.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw pob Bwrdd Iechyd Lleol ar y trywydd iawn i gyflawni eu cynlluniau ar gyfer gwella gofal canser ym mis Medi. (WAQ56434)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i roi cynlluniau gweithredu ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau Canser Cenedlaethol erbyn diwedd mis Medi.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A all y Gweinidog dros Iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gyfarwyddeb ar Ddatblygu Gwasanaethau Epilepsi, gan roi manylion ynghylch a yw'r amserlen ar gyfer gweithredu ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gael ei chyflawni. (WAQ56435)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Ysgrifennais at y BILlau ym mis Ionawr yn gofyn iddynt sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Gyfarwyddeb erbyn diwedd eleni a disgwylir i'r BILlau adrodd yn ôl ar gynnydd erbyn diwedd mis Medi.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Ac ystyried yr anghysondebau ar draws y GIG yng Nghymru o ran yr amser y mae'n rhaid i gleifion aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys cyn cael eu derbyn i'r ysbyty, pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd ochr yn ochr â Byrddau Iechyd Lleol i fynd i'r afael â'r mater. (WAQ56441)

***Rhoddwyd ateb ar 13 Mai 2011***

Mae'n briodol i rai cleifion dreulio mwy o amser nag eraill mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn iddynt gael eu hasesu a'u trin yn gywir cyn cael eu derbyn i'r ysbyty neu eu rhyddhau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda'r GIG yng Nghymru i gyflawni'r targed o sicrhau bod 95% o gleifion yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn pedair awr.